

375 - Rhyddiaith Bl.10 ac 11 (D)

Beirniad: Elin Wyn Williams

Er mai ond 3 a fentrodd i gystadlu yn y gystadleuaeth hon, mae'r safon yn uchel ac mae'r darnau yn werth eu darllen, yn hwyliog, yn llawn amrywiaeth ac yn llawn cyffro ac yn cadw diddordeb y darllenydd drwyddi draw.

1af Zara

Mae'r darn "Y Gwyliau o Chwedlau" yn ddarn hynod ddychmygol sy'n cyfuno elfennau o ddyddiadur personol â byd hudolus llên gwerin Cymru. Mae'r awdur yn defnyddio iaith fywiog sy'n llawn delweddau i greu golygfeydd trawiadol o Gymru fel "y tir o chwedlau". Mae disgrifiadau fel "cestyll hynafol ar glogynau tal" a "mynyddoedd eiraog a'r llynnoedd heddychol" yn gwneud i'r darllenydd deimlo fel pe baent yn cerdded ochr yn ochr â'r awdur drwy'r dirwedd hudolus hon.

Yn ogystal, mae'r darn yn llawn cyfeiriadau at chwedlau a symbolau adnabyddus o ddiwylliant Cymru, megis y Ddraig Goch, Myrddin Emrys ac Arglwyddes y Llyn. Mae hyn yn rhoi naws arbennig i'r testun ac yn dangos gwybodaeth dda am fytholeg Gymreig. Mae'r awdur hefyd yn llwyddo i gydbwysu'r hud â hiwmor ysgafn, fel yn y sgwrs rhwng y plentyn a'i fam.

Er bod yr iaith yn gryf ac yn fynegiannol, mae ychydig o fân wallau gramadegol a threigladau yn ymddangos o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r gwallau hyn yn tynnu llawer oddi wrth ansawdd y darn, gan fod y cynnwys mor fywiog a chreadigol.

Yn gyffredinol, mae'n ddarn llawn dychymyg sy'n dangos cariad at ddiwylliant a chwedlau Cymru. Mae'r awdur yn llwyddo i greu byd hudolus sy'n teimlo'n fyw ac yn gyffrous, gan gyfuno natur, hanes a mytholeg mewn ffordd sy'n ysbrydoledig ac yn bleserus i'w ddarllen.

2il Rowie

Mae'r darn "Gwyliau" yn ddarn personol a chynnes sy'n dangos brwdfrydedd yr awdur dros deithio a darganfod diwylliannau newydd. Mae'r disgrifiadau o Japan yn fywiog ac yn llawn dychymyg, gan greu darlun clir o'r hyn sy'n apelio at yr awdur. Mae'r cymhariaeth rhwng Ffrainc a Japan yn ychwanegu dyfnder ac yn dangos profiad personol sy'n gwneud y darn yn fwy diddorol.

Mae'r darn hefyd yn defnyddio strwythur clir, gyda mynegiadau fel "Ar y un llaw..." ac "Ar y llaw arall..." i gyflwyno dau safbwynt. Mae hyn yn rhoi cydbwysedd i'r dadl ac yn dangos dealltwriaeth o sut i drefnu syniadau'n effeithiol.

Er bod yr iaith yn gryf ar y cyfan, mae ychydig o gamdreiglo a mân wallau gramadegol, megis "Ar y un llaw" yn lle "Ar y naill law". Fodd bynnag, nid yw'r gwallau hyn yn tynnu llawer oddi wrth ansawdd y darn, ac mae'r ystyr yn glir drwy'r amser.

Yn gyffredinol, mae'n ddarn llawn brwdfrydedd ac awch i deithio, gyda disgrifiadau clir a strwythur cadarn.

3ydd Ross

Mae'r darn "Gwyliau yng Nghymru – Stori Fer" yn stori ddychmygus sy'n dilyn antur annisgwyl Bob wrth iddo geisio dianc rhag diflastod yr ysgol. Mae'r awdur yn cyflwyno naratif llawn digwyddiadau, gyda digon o densiwn ac emosiwn i gadw diddordeb y darllynydd. Mae'r disgrifiadau o'i daith i Ddinbych-y-Pysgod hefyd yn fywiog ac mae'r stori'n cynnwys elfen gymdeithasol ddiddorol, megis pobl leol caredig sy'n rhoi arian i Bob. Mae'r tensiwn yn cynyddu pan mae'r heddlu a'i rieni yn chwilio amdano, gan greu tro dramatig yn y naratif. Mae'r diwedd glo, lle mae Bob yn cael ei ddal ac yn cael ei anfon i'r carchar, yn annisgwyl ac yn rhoi tro comig i'r stori.

Er bod y stori'n llawn syniadau creadigol, mae nifer o wallau gramadegol a threigladau drwy'r darn. Ceir camdreiglo aml, a rhai ffurfiau anghywir. Mae hefyd sawl brawddeg hir iawn sy'n gallu drysu'r darllynydd. Fodd bynnag, er bod y gwallau hyn yn amlwg, nid ydynt yn lleihau creadigrwydd y stori.

Yn gyffredinol, mae'n stori fywiog ac egniol sy'n dangos dychmyg cryf a gallu i greu sefyllfaoedd dramatig ac annisgwyl.